

**CYNLLUN IAITH GYMRAEG A BARATOWYD YN UNOL Â DEDDF YR IAITH
GYMRAEG 1993**

**Mae Cynllun Iaith Gymraeg Cynghorau Ymchwil y DU wedi cael ei
gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 3/07/2012**

CYNLLUN IAITH GYMRAEG CYNGHORAU YMCHWIL Y DU

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun yn nodi'r ffordd y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.
- 1.2 Mae'r cynllun hwn yn nodi'r ffordd y bydd pob un o'r saith Cyngor Ymchwil yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth lunio'r mesurau a nodir yn y Cynllun, mae'r Cynghorau Ymchwil wedi ystyried yr hyn sy'n briodol o dan yr amgylchiadau a'r hyn sy'n rhesymol ymarferol. Gall y Cynghorau Ymchwil, o bryd i'w gilydd, gyflwyno Cynllun diwygiedig i Gomisiynydd y Gymraeg, ond ni ellir gwneud unrhyw newidiadau heb ganiatâd Comisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw.
- 1.3 Cafodd y cynllun hwn ei baratoi yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn unol ag Adran 9 o'r Ddeddf a chafodd ei gymeradwyo'n llawn gan Gomisiynydd y Gymraegar 3/07/2012
- 1.4 Mae cynllun yr iaith Gymraeg yn ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

2. CEFNDIR Y CYNGHORAU YMCHWIL

- 2.1 Mae'r saith Cyngor Ymchwil yn sefydliadau cenedlaethol, wedi eu dosbarthu fel cyrff gweithredol, anadrannol yn unol â Deddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965. Cânt eu hariannu trwy'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ac maent yn buddsoddi mewn ymchwil a hyfforddiant mewn prifysgolion, eu sefydliadau eu hunain a nifer o sefydliadau ymchwil annibynnol; mewn cyfleusterau ymchwil mawr; ac yn gwella'r cysylltiadau rhwng yr ymchwil y maent yn ei hariannu a busnesau, y llywodraeth, elusennau a'r cyhoedd. Mae ganddynt bencadlys yn Swindon a Llundain ond mae ganddynt rai cyfleusterau yng Nghymru.
- 2.2 Cynghorau Ymchwil y DU (RCUK) yw partneriaeth strategol saith Cyngor Ymchwil y DU. Yn flynyddol, rydym yn buddsoddi tua £3 biliwn mewn ymchwil. Mae ein ffocws ar ragoriaeth gydag effaith. Rydym yn meithrin ymchwil o'r ansawdd gorau, wedi ei barnu gan adolygiad rhyngwladol gan gymheiriaid sy'n rhoi mantais gystadleuol i'r DU. Mae ymchwil fyd-eang yn gofyn ein bod yn cynnal amrywiaeth o ddulliau ariannu, yn meithrin cydweithredu rhyngwladol, ac yn rhoi mynediad i'r cyfleusterau a'r

seilwaith gorau, ac yn gosod ymchwilwyr medrus mewn amgylcheddau ysgogol. Mae ein hymchwil yn cael effaith – y cyfraniad amlwg i gymdeithas a'r economi trwy wybodaeth a phobl fedrus. Er mwyn cyflawni effaith, mae angen i ymchwilwyr a busnesau ymgysylltu a chydweithredu â'r cyhoedd, busnesau, y llywodraeth a chyrrff elusennol.

2.3 Mae Saith Cyngor Ymchwil y DU fel a ganlyn:

2.3.1 **Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC)** - Bob blwyddyn mae'r AHRC yn darparu tua £100 miliwn gan y Llywodraeth i gefnogi ymchwil ac astudiaeth ôl-raddedig yn y celfyddydau a'r dyniaethau, o ieithoedd a'r gyfraith, archeoleg a llenyddiaeth Saesneg i ddylunio a'r celfyddydau creadigol a pherfformio. Mewn unrhyw flwyddyn, mae'r AHRC yn rhoi cannoedd o wobrau ymchwil yn amrywio o gymrodoriaethau unigol i brosiectau cydweithredu mawr yn ogystal â thros 1,100 o ysgoloriaethau ymchwil. Rhoddir y gwobrau yn dilyn proses drwyadl o adolygu gan gymheiriaid, er mwyn sicrhau mai dim ond ceisiadau o'r ansawdd uchaf sy'n cael eu hariannu. Mae ansawdd ac ystod yr ymchwil sy'n cael ei chefnogi trwy fuddsoddi'r arian cyhoeddus hwn nid yn unig yn creu buddion cymdeithasol a diwylliannol, ond mae hefyd yn cyfrannu at lwyddiant economaidd y DU. www.ahrc.ac.uk

2.3.2 **Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC)** – Mae'n buddsoddi mewn ymchwil a hyfforddiant biowyddonol o safon fyd-eang ar ran cyhoedd y DU. Ein nod yw datblygu gwybodaeth wyddonol ymhellach, er mwyn hybu twf economaidd, cyfoeth a chreu swyddi a gwella ansawdd bywyd yn y DU a thu hwnt.

Fe'n hariennir gan y Llywodraeth, a chyda chyllideb flynyddol o ryw £445M, rydym yn cefnogi ymchwil a hyfforddiant mewn prifysgolion a sefydliadau a ariennir yn strategol. Mae ymchwil BBSRC a'r bobl yr ydym yn eu hariannu yn helpu cymdeithas i gyflawni heriau mawr, yn cynnwys diogelwch bwyd, ynni gwyrdd a bywydau iachach, hwy. Mae ein buddsoddiadau yn tanategu sectorau economaidd pwysig yn y DU, fel ffermio, bwyd, biotechnoleg ddiwydiannol a chynhyrchion fferyllol.

Am fwy o wybodaeth am BBSRC, ein gwyddoniaeth a'r effaith yr ydym yn ei chael, ewch i: <http://www.bbsrc.ac.uk>

Am fwy o wybodaeth am sefydliadau a ariennir yn strategol gan BBSRC, ewch i: <http://www.bbsrc.ac.uk/institutes>

2.3.3 Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) – Y
Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) yw sefydliad mwyaf y DU ar gyfer ariannu ymchwil ar faterion economaidd a chymdeithasol. Mae'n cefnogi ymchwil annibynnol, o ansawdd uchel, sy'n cael effaith ar fusnes, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Cyfanswm cyllideb yr ESRC ar gyfer 2011/12 yw £203 miliwn. Ar unrhyw bryd, mae'r ESRC yn cefnogi dros 4,000 o ymchwilwyr a myfyrwyr ôl-raddedig mewn sefydliadau academiaidd a sefydliadau ymchwil annibynnol. www.esrcsocietytoday.ac.uk

Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol hefyd yn darparu cyllid, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a CCAUC, i'r Ganolfan Ymchwil i Ddwieithrwydd. Wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Bangor, mae'r Ganolfan yn ystyried pob maes yn ymwneud â Dwyieithrwydd yn cynnwys dwyieithrwydd a datblygiad iaith, niwrowyddoniaeth, sgwrs ddwyieithog, addysg ddwyieithog a'r ffordd y defnyddir ieithoedd lleiafrifol mewn cymunedau dwyieithog. Mae mwy o wybodaeth am y Ganolfan ar gael yn.

Mae'r ESRC hefyd yn ariannu'r Ganolfan ar gyfer Cysylltiadau Busnes, Atebolrwydd, Cynaliadwyedd a Chymdeithas (BRASS) sydd wedi ei lleoli ym mhrifysgol Caerdydd. Mae'r ymchwil yn y ganolfan yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd busnes a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, ac yn arbennig y berthynas rhwng busnesau a'u rhanddeiliaid allweddol (cwsmeriaid, cyflenwyr, buddsoddwyr, gweithwyr, cymunedau lleol a rheoleiddwyr). Mae eu partneriaid ymchwil yn cynnwys: Cyngor Caerdydd, Canolfan Moeseg, Cyfraith a Chymdeithas Caerdydd, Comisiwn Cefn Gwlad Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o fodel y Ganolfan Hyfforddiant Doethurol, mae'r ESRC hefyd yn ariannu PhD trwy Gonsortium Cymru yn cynnwys Prifysgol Caerdydd (arweinydd), Prifysgol Aberystwyth; Prifysgol Bangor a Phrifysgol Abertawe.

Mae'r ESRC yn cydariannu Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) gyda [Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru \(CCAUC\)](#). Mae WISERD yn cynnal rhaglen uchelgeisiol o integreiddio data, ymchwil sylfaenol a meithrin gallu yng Nghymru. Mae'r disgyblaethau cyfrannol yn cynnwys cymdeithaseg, daearyddiaeth, polisi cymdeithasol a chyhoeddus, y gyfraith, economeg, gwleidyddiaeth, addysg a gwaith cymdeithasol.

Mae gweithgaredd ymchwil a rhaglen meithrin gallu WISERD yn cael ei ddisbarthu ar draws y sefydliadau partner ac mae hefyd yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a sefydliadau cyhoeddus eraill.

2.3.4 **Y Cyngor Ymchwil Peirianeg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC)**

– Y Cyngor Ymchwil Peirianeg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) yw prif asiantaeth y DU ar gyfer ariannu ymchwil ym maes peirianeg a'r gwyddorau ffisegol. Mae'r EPSRC yn buddsoddi tua £800M y flwyddyn mewn ymchwil a hyfforddiant ôl-raddedig, i helpu'r genedl i ymdopi â'r genhedlaeth nesaf o newid technolegol. Mae'r meysydd sy'n cael eu cynnwys yn amrywio o dechnoleg gwybodaeth i beirianeg saerïol, ac o fathemateg i wyddor deunyddiau. Y gwaith ymchwil hwn yw'r sylfaen ar gyfer datblygu economaidd yn y dyfodol yn y DU a gwelliannau i iechyd, ffordd o fyw a diwylliant pawb. Mae'r EPSRC yn gweithio ar y cyd â Chynghorau Ymchwil eraill â chyfrifoldeb dros feysydd ymchwil eraill. www.epsrc.ac.uk

Mae'r EPSRC yn darparu cyllid i Ganolfan Doethuriaeth Ddiwydiannol MATTER ym Mhrifysgol Abertawe. Mae MATTER (Gweithgynhyrchu drwy Hyfforddi Ymchwilwyr Peirianeg) yn fenter sy'n targedu gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg yn benodol. Bydd MATTER yn canolbwyntio ar themâu Awyrofod, Modurol a Phecynnu a bydd yn canolbwyntio ar wella gwerth deallusol ac ychwanegol y cynnyrch a'r prosesau trwy arloesi, gan ostwng elfen nwyddau llawer o sector y DU. Maes allweddol y bydd MATTER yn canolbwyntio arno fydd gwella prosesau er mwyn lleihau gwastraff a gwella ansawdd yn y diwydiannau hyn.

2.3.5 Ers bron 100 mlynedd, mae'r **Cyngor Ymchwil Feddygol** wedi gwella iechyd pobl yn y DU ac o amgylch y byd trwy gefnogi gwyddoniaeth o'r ansawdd uchaf. Mae'r MRC yn buddsoddi mewn gwyddonwyr o safon fyd-eang. Mae wedi creu 29 o enillwyr Gwobr Nobel ac mae'n cynnal amgylchedd llewyrchus ar gyfer ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae'r MRC yn canolbwyntio ar gael effaith ac mae'n darparu'r grym ariannol a'r arbenigedd gwyddonol y tu ôl i ddarganfyddiadau meddygol, yn cynnwys un o'r gwrthfotigau cyntaf, penicillin, strwythur DNA a'r cysylltiad marwol rhwng smygu a chanser. Heddiw, mae gwyddonwyr a ariennir gan yr MRC yn mynd i'r afael ag ymchwil i brif heriau iechyd yr 21ain ganrif. www.mrc.ac.uk

Mae Canolfan y Cyngor Ymchwil Feddygol dros Geneteg Niwroseiciatreg a Genomeg ym Mhrifysgol Caerdydd – Canolfan gyntaf y Cyngor Ymchwil Feddygol yng Nghymru – wedi ei hanelu yn benodol at ddefnyddio'r chwyldro mewn geneteg i ymchwilio i anhwylderau meddyliol. Mae'n cael cyllid hefyd gan Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu (WORD) a'r brifysgol ei hun. Bydd y ganolfan yn mynd i'r afael â salwch meddwl fel sgitsoffrenia ac anhwylder deubegynol, clefydau dirywiad yr ymennydd fel Alzheimer, Huntington a Parkinson, ac anhwylderau datblygiadol fel dyslecsia ac iselder mewn plentyndod.

- 2.3.6 **Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) - Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) - NERC yw prif asiantaeth y DU ar gyfer ariannu a rhoi cyfeiriad strategol i ymchwil, hyfforddiant a chyfnewid gwybodaeth yn y gwyddorau amgylcheddol. Mae'n ariannu ymchwil a hyfforddiant annibynnol mewn prifysgolion a'i ganolfannau ymchwil ei hun. Trwy ymchwil integredig mewn gwyddoniaeth forol, pegynol, atmosfferig, daearegol, daearol a dŵr croyw, mae'r NERC yn mynd i'r afael â materion amgylcheddol ac economaidd pwysig yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd, dylanwadau amgylcheddol ar iechyd dynol, a'r economi gwyrdd. Mae'r NERC yn cyflenwi gwybodaeth amgylcheddol, sgiliau a phartneriaethau â photensial mawr i gefnogi twf economaidd a lles cymdeithasol.**

Mae'r NERC hefyd yn ariannu'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH) sydd â safle ymchwil ym Mangor, mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, sydd yn ffurfio Canolfan Amgylchedd Cymru (ECW). Mae llawer o'r ymchwil sy'n cael ei gwneud yn CEH Bangor yn ymwneud ag effaith llygredd aer, newid yn yr hinsawdd a'r defnydd o dir ar wasanaethau'r ecosystem.

- 2.3.7 **Y Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg (STFC) - Mae'r Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn cadw'r DU ar flaen y gad o ran gwyddoniaeth ryngwladol ac yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf sylweddol y mae cymdeithas yn eu hwynebu fel bodloni ein hanghenion ynni yn y dyfodol, monitro a deall newid yn yr hinsawdd, a diogelwch byd-eang. Mae gan y Cyngor bortffolio wyddoniaeth eang ac yn gweithio gyda'r cymunedau academiaidd a diwydiannol i rannu ei arbenigedd mewn gwyddoniaeth deunyddiau, technolegau seryddiaeth y gofod a'r ddaear, gwyddoniaeth laser, microelectroneg, gweithgynhyrchu ar raddfa wafferi, ffiseg gronynnau a niwclear, cynhyrchu ynni amgen, cyfathrebiadau radio a radar. Mae STFC yn gweithredu neu'n cynnal cyfleusterau arbrofol o safon fyd-eang yn cynnwys, yn y DU,**

ISIS, y Cyfleuster Laser Canolog, LOFAR ac mae ganddo gyfranddaliadau sylweddol yn Diamond Light Source.
www.stfc.ac.uk

2.4 Cyllid y Cyngor Ymchwil yng Nghymru

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y cyllid o'r Cyngorau Ymchwil sy'n cael ei fuddsoddi ar hyn o bryd mewn gwyddoniaeth ac ymchwil yn ogystal â'r cyfleoedd hyfforddiant ôl-raddedig yng Nghymru

Cyngor Ymchwil	2009/10			2010/11		
	Ymchwil (£'000)	Ô-radd (£'000)	Cyfanswm (£'000)	Ymchwil (£'000)	Ôl-radd (£'000)	Cyfanswm (£'000)
AHRC	2,317	1,633	3,950	1,906	822	2,728
BBSRC	9,500	1,170	10,670	10,044	1,250	11,294
ESRC	5,555	2,742	8,297	7,500	2,864	10,364
EPSRC	13,464	2,286	15,750	10,992	4,862	15,854
MRC	7090	1734	8824	7,890	1,755	9,645
NERC	5775	1457	7232	5795	1092	6887
STFC	5907	428	6335	2933	498	3431

Figur 1 – Buddsoddiad gan y Cyngorau Ymchwil yng Nghymru

3. CWMPAS Y CYNLLUN

3.1 Mae Cynllun y Cynghorau Ymchwil yn berthnasol i'r holl Gynghorau Ymchwil a'r sefydliadau a'r cyfleusterau y maent yn berchen yn gyfan gwbl arnynt.

4. CYNLLUNIO A CHYFLENWI GWASANAETHAU

4.1 Polisiâu a mentrau newydd

- 4.1.1 Mae'r Cynghorau Ymchwil yn sicrhau bod gweithgareddau newydd yn cyd-fynd â Chynllun Iaith Gymraeg Cynghorau Ymchwil y DU ac na fyddent yn tansilio'r Cynllun neu wasanaethau iaith Gymraeg y Cynghorau Ymchwil y DU na sefydliadau eraill, lle y bo'n berthnasol.
- 4.1.2 Bydd y mesurau a geir yn y Cynllun hwn yn cael eu cymhwyso mewn polisiâu a mentrau newydd pan gânt eu gweithredu. Mae'r Cynghorau Ymchwil yn ymrwmo i ymgynghori â Comisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw parthed polisiâu a mentrau newydd a fydd yn effeithio ar ei Gynllun Iaith Gymraeg neu a allai effeithio ar gynlluniau sefydliadau eraill.
- 4.1.3 Wrth ddyfeisio polisiâu a mentrau newydd, bydd y Cynghorau Ymchwil yn:
- asesu effaith ieithyddol unrhyw bolisiâu a mentrau newydd ac yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Cynllun Iaith Gymraeg
 - sicrhau, lle bo'n briodol, bod y mesurau a geir yn y Cynllun yn cael eu cymhwyso i'r polisiâu a'r mentrau newydd pan gânt eu gweithredu
 - sicrhau nad oes unrhyw bolisi neu fenter newydd yn tansilio'r Cynllun Iaith Gymraeg na Chynllun Iaith unrhyw ddarparwr arall
 - ymgynghori â Comisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw parthed cynigion a fydd yn effeithio ar y Cynllun neu Gynllun unrhyw gorff cyhoeddus arall. Ni chaiff y Cynllun ei newid heb gytundeb y Bwrdd
 - sicrhau bod y rheiny sy'n gysylltiedig â ffurfio polisi (yng Nghymru a thu hwnt) yn ymwybodol o'r Cynllun a chyfrifoldebau'r Cynghorau Ymchwil yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
 - cynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg fel rhan o'r hyfforddiant sefydlu ar gyfer pob aelod o staff newydd a benodir a fydd wedi ei leoli yng Nghymru neu yn ymdrin yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r cyhoedd yng Nghymru
 - cyhoeddi'r Cynllun ar fewnwyd a gwefan y sefydliad
 - sicrhau bod y polisiâu'n symud y Cynghorau yn agosach at weithredu egwyddor cydraddoldeb.

4.2 Cyflenwi gwasanaethau

4.2.1 Bydd y Cynghorau Ymchwil yn sicrhau, lle y bo'n briodol ac yn rhesymol ymarferol, bod eu gwasanaethau yng Nghymru ar gael yn Gymraeg a byddant yn hysbysu'r cyhoedd yng Nghymru pan fyddant ar gael. Cred y Cynghorau Ymchwil ei fod yn deg ac yn rhesymol i'r cyhoedd yng Nghymru ddisgwyl derbyn ei wasanaethau yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unol â dewis yr unigolyn. Er nad yw bob amser yn gallu cynnig y dewis hwn i'r cyhoedd ar hyn o bryd, mae'r Cynghorau Ymchwil wedi ymrwymo i sefydlu trefniadau a fydd yn y pen draw yn eu galluogi i ddarparu mwy o wasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y Cynghorau Ymchwil hefyd yn archwilio opsiynau i gefnogi siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau nad ydynt o dan anfantais oherwydd iaith.

4.3 Safonau ansawdd

4.3.1 Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal a chânt eu darparu o fewn yr un graddfeydd amser. Wrth asesu a mesur safonau ac effeithiolrwydd ei wasanaethau yn Gymraeg, bydd y Cynghorau Ymchwil yn defnyddio'r un "dangosyddion perfformiad" â'r rheiny a ddefnyddiwyd yn ymwneud â'i wasanaethau yn Saesneg.

4.3.2 Caiff yr ymrwymiad hwn ei ddatgan yn gyhoeddus yn Adroddiadau Blynyddol y Cynghorau Ymchwil ac mewn cyhoeddiadau eraill, fel y bo'n briodol.

4.4 Dyfarnu grantiau a benthyciadau

4.4.1 Pan fydd y Cynghorau Ymchwil yn dyfarnu grantiau ar gyfer gweithgareddau sydd wedi eu hanelu'n benodol at ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru, byddant yn cynnwys amodau sy'n sicrhau cydraddoldeb parthed y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg. Wrth wneud hyn, bydd y Cynghorau Ymchwil yn ystyried unrhyw ganllawiau neu gyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg ar ddyfarnu grantiau a benthyciadau.

5. YMDRIN Â'R CYHOEDD CYMRAEG EU HIAITH

5.1 Cyfathrebu ysgrifenedig

5.1.1 Mae'r Cynghorau Ymchwil yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

5.1.2 Bydd gohebiaeth sy'n cael ei derbyn yn Gymraeg yn cael ateb Cymraeg wedi ei lofnodi.

5.1.3 Bydd gohebiaeth ddwyieithog yn cael ateb dwyieithog wedi ei lofnodi.

- 5.1.4 Bydd y Cynghorau Ymchwil naill ai'n anfon ateb sylweddol, neu ateb dros dro, o fewn 15 diwrnod gwaith p'un a yw'r ohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ar gyfer ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, byddwn yn ymateb o fewn yr 20 diwrnod gwaith statudol.
- 5.1.5 Bydd pob gohebiaeth ag aelod o'r cyhoedd yn cael ei chychwyn yn ei ddewis/dewis iaith, Cymraeg neu Saesneg, os yw'n hysbys.
- 5.1.6 Bydd pob llythyr sy'n cael ei ddsbarthu i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.
- 5.1.7 Gwneir trefniadau i gyfieithu gohebiaeth fel y bo angen er mwyn ymateb i ohebiaeth o fewn y cyfnod cytûn ac yn yr iaith wreiddiol.
- 5.1.8 Bydd RCUK yn anfon yr holl ddeunydd sydd angen ei gyfieithu at gyfieithydd proffesiynol sydd wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r cyfnod amser cytûn.
- 5.1.9 Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i ohebiaeth electronig.

5.2 Cyflwyniadau grant

5.2.1 Yn gyffredinol, caiff ceisiadau'r Cyngor Ymchwil eu cyflwyno trwy'r system Cyflwyno Electronig ar y Cyd (J-eS). Caiff ceisiadau grant eu prosesu gan Ganolfan Gwasanaeth a Rennir RCUK a gwneir penderfyniadau am gyllid trwy brosesau adolygu gan gymheiriaid y Cynghorau. Oherwydd natur arbenigol y ceisiadau grant ymchwil hyn, mae nifer cyfyndedig o unigolion sydd â'r arbenigedd i gynnal adolygiadau cymheiriaid l sicrhau ansawdd yn genedlaethol, ac mae prinder sylweddol o sgiliau dwyieithog Cymraeg / Saesneg yn y maes. Felly, nid ydym yn gallu derbyn ceisiadau grant ymchwil yn Gymraeg, ond rydym yn fodlon ystyried achosion unigol ac yn barod l archwilio opsiynau fesul achos i gefnogi ymchwilwyr Cymraeg eu hiaith er mwyn sicrhau nad yw eu ceisiadau o dan anfantais oherwydd iaith.

5.2.2 Wrth asesu ceisiadau grant, bydd y Cynghorau Ymchwil yn sicrhau na fydd yr iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

5.2.3 Yn y dyfodol, wrth adolygu'r system ymgeisio grantiau a'r systemau electroneg a ddefnyddir yn rhan o'r broses ymgeisio, bydd RCUK yn ymchwilio i ddulliau i roi mewn lle, prosesau a systemau a fydd yn galluogi ac yn hwyluso ceisiadau dwyieithog.

5.3 Cyfathrebu dros y ffôn

- 5.3.1 Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cynghorau Ymchwil ganolfan weinyddol yng Nghymru ac oherwydd y ffaith mai nifer gyfyngedig o'r staff presennol sy'n medru'r Gymraeg, ni all y sefydliad ymdrin â galwadau yn Gymraeg. Fodd bynnag, pan fydd aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg, bydd yr aelod o'r staff yn esbonio'r sefyllfa yn gwrtais ac yn rhoi'r dewis i'r unigolion gyflwyno eu hymholiad yn ysgrifenedig yn Gymraeg er mwyn iddynt allu derbyn ymateb ysgrifenedig yn Gymraeg; esbonio'r ymholiad yn llawn yn Saesneg a chael ateb ysgrifenedig yn Gymraeg neu barhau â'r alwad yn Saesneg.
- 5.3.2 Mewn cyfleusterau ymchwil a weithredir gan y Cyngor Ymchwil sydd wedi eu lleoli yng Nghymru, croesewir cyfathrebu dros y ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd staff y switsfwrdd yn ateb yr alwad yn ddwyieithog. Os bydd unigolyn dwyieithog yn cymryd yr alwad, neu os yw'r alwad yn cael ei throsglwyddo i'r unigolyn hynny, dylai ef/hi ei wneud yn amlwg ei fod ef/hi yn ddwyieithog. Bydd y sgwrs fydd yn dilyn yn newis iaith y person sy'n galw. Mewn cyfleuster ymchwil sydd ag aelodau staff dwyieithog, nad ydynt ar gael i ddelio â'r alwad bryd hynny, dylid gwneud trefniadau i un o'r aelodau staff hynny ddychwelyd yr alwad, oni bai bod y person sy'n galw yn fodlon trafod y mater yn Saesneg. Mewn cyfleuster ymchwil sydd heb aelodau staff dwyieithog ar unrhyw adeg, bydd yr aelod o'r staff sydd yn ateb yr alwad yn esbonio'r sefyllfa yn gwrtais ac yn rhoi'r dewis i'r unigolyn gyflwyno eu hymholiad yn ysgrifenedig yn Gymraeg er mwyn gallu derbyn ymateb ysgrifenedig yn Gymraeg; esbonio'r ymholiad yn llawn yn Saesneg a chael ateb ysgrifenedig yn Gymraeg neu barhau â'r alwad yn Saesneg.
- 5.3.3 Pan fyddwn yn sefydlu llinellau cymorth dros y ffôn, neu gyfleusterau tebyg sy'n rhoi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu gwasanaethau iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei hysbysebu ynghyd â'r gwasanaeth Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn a byddant yn ddarostyngedig i'r un safonau ansawdd.

5.4 Cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yng Nghymru

- 5.4.1 Wrth gynnal cyfarfodydd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, bydd y Cynghorau Ymchwil yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg a Saesneg. Wrth roi cyhoeddusrwydd i'r cyfarfod, bydd y llenyddiaeth berthnasol, fel gwahoddiadau a hysbysebion, yn datgan hyn a byddant yn ddwyieithog. Bydd cyfieithu ar y pryd ar gael ar gais ond dylai mynychwyr sydd am fanteisio arno hysbysu'r Cyngor Ymchwil fydd yn rhedeg y digwyddiad neu gyfarfod o flaen llaw. Bydd y Cynghorau Ymchwil yn asesu'r angen am wasanaethau cyfieithu ar y pryd yn seiliedig ar nifer y rhai sy'n gofyn am y gwasanaethau.
- 5.4.1
- 5.4.2 Fel yn Atodiad 1, bydd y rhan fwyaf o'r llenyddiaeth a'r deunydd arddangos yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ond, os na fydd dogfennau cysylltiedig yn cael eu

cyfieithu, bydd y Cynghorau Ymchwil yn darparu cyfieithiadau ysgrifenedig ar gais.

5.4.3 Pan fydd y Cynghorau Ymchwil yn defnyddio cysylltiadau telefideo er mwyn cynnal cyfarfodydd gydag aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, byddant yn gwahodd y rheiny sy'n mynychu sy'n dymuno siarad Cymraeg i hysbysu trefnydd y digwyddiad ymlaen llaw er mwyn gallu trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

5.4.4 Wrth drefnu cyfarfod wyneb yn wyneb â'r cyhoedd yng Nghymru, os na ellir cynnig dewis iaith, bydd y sefyllfa yn cael ei hesbonio yn gwrtais a bydd y person sy'n mynychu yn cael dewis naill ai:

- i drafod y mater yn Saesneg, neu
- anfon eu hymholiad i mewn yn ysgrifenedig yn Gymraeg er mwyn iddynt allu cael ymateb yn Gymraeg

6. EIN DELWEDD GYHOEDDUS YNG NGHYMRU

6.1 Hunaniaeth gorfforaethol

6.1.1 Wrth gynnal ei fusnes yng Nghymru, bydd y Cynghorau Ymchwil yn defnyddio delwedd a hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr enw corfforaethol a'r wybodaeth ffeithiol safonol ar y deunydd papur, er enghraifft dogfennau a gynhyrchir yn ddwyieithog neu yn Gymraeg a phapur pennawd a ddefnyddir wrthohebu â'r cyhoedd yng Nghymru.

Pan fydd dogfennau'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu yn Gymraeg, bydd enw'r Cynghorau Ymchwil yn aros er mwyn sicrhau hunaniaeth brand y Cynghorau unigol ond bydd esboniad yn Gymraeg. (e.e.NERC – gyda disgrifiad Cymraeg – *Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol*).

6.2 Cyfathrebu ar y rhynggrwyd

6.2.1 Bydd RCUK yn sicrhau bod deunydd iaith Gymraeg ar wefannau'r Cynghorau ymchwil yn hygyrch. Bydd gwefannau corfforaethol y Cynghorau Ymchwil yn sicrhau bod o leiaf y canlynol yn ymddangos:

- Cyflwyniad i'r sefydliad yn Gymraeg
- Cynllun iaith Gymraeg y Cynghorau Ymchwil (yn Gymraeg a Saesneg)
- Ar dudalennau cyhoeddiadau, bydd yn dangos yn glir pa ddogfennau sydd ar gael yn Gymraeg
- Crynodeb o adroddiad monitro mesurau iaith Gymraeg y Cynghorau Ymchwil.

6.2.2 Yn ystod oes y cynllun rydym yn bwriadu datblygu'r cynnwys dwyieithog ar ein gwefannau er mwyn sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys:

- Gwybodaeth am waith ymchwil perthnasol sy'n cael ei wneud yng Nghymru ar hyn o bryd
- Newyddion perthnasol yng Nghymru gan y Cynghorau Ymchwil.
- Adnoddau ar gyfer ysgolion
- Bydd cyfeiriad e-bost yn cael ei sefydlu ar gyfer aelodau'r cyhoedd yng Nghymru i'w galluogi i wneud cais am adnoddau yn Gymraeg.

6.3 Arwyddion

6.3.1 Nid yw canolfannau gweinyddol y Cynghorau Ymchwil wedi eu lleoli yng Nghymru ond rydym yn gweithredu nifer fach o gyfleusterau yng Nghymru. Yn y cyfleusterau a leolir yng Nghymru, bydd y Cynghorau Ymchwil yn sicrhau y bydd yr holl wybodaeth newydd a gwybodaeth sy'n disodli hen wybodaeth o fewn eiddo'r Cynghorau Ymchwil yn Gymraeg a Saesneg.

6.3.2 Bydd y Cynghorau Ymchwil yn sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

6.3.3 Os ceir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfwerth o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

6.4 Deunydd wedi ei gyhoeddi

6.4.1 Mae'r Cynghorau Ymchwil wedi ymrwymo i gyhoeddi deunyddiau wedi eu hargraffu sydd wedi eu hanelu at y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

6.4.2 Ni fydd y Cynghorau Ymchwil fel arfer yn cyhoeddi deunyddiau neu adroddiadau a fwriadwyd ar gyfer cynulleidfa ar draws y DU yn ddwyieithog. Fodd bynnag, bydd pob ffurflen, holiadur a deunyddiau tebyg sy'n gysylltiedig â gweithgareddau craidd y Cynghorau Ymchwil yng Nghymru yn ddwyieithog p'un a ydynt wedi eu hargraffu neu ar gael yn electronig. Bydd hyn yn cynnwys:

- Dogfennau polisi ac ymgynghori sy'n ymwneud â materion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd yng Nghymru
- Pamffledi a thafleuni sydd wedi eu hanelu at y cyhoedd yng Nghymru
- Ffurflenni a deunydd esboniadol sydd wedi eu hanelu at y cyhoedd yng Nghymru
- Cylchlythyrau a llythyrau safonol sydd wedi eu hanelu at y cyhoedd yng Nghymru

6.4.3 Wrth bennu pa ddogfennau eraill y gellid eu cyhoeddi'n ddwyieithog, bydd y Cynghorau Ymchwil yn ystyried ffactorau fel maint a natur y ddogfen a'r gynulleidfa darged, pa mor eang y caiff ei ddosbarthu, y gost o gyfieithu a'r galw

tebygol. Mae Atodiad 1 yn dangos pa ddogfennau fydd yn ddwyieithog, a gyhoeddir mewn fersiynau ar wahân, neu yn Saesneg yn unig.

6.4.4 Caiff ceisiadau i gyfieithu deunyddiau sydd ond ar gael yn Saesneg, am nad yw eu cynnwys wedi cael ei anelu at y cyhoedd, eu hystyried fel nad oes unrhyw un o dan anfantais oherwydd iaith.

6.4.5 Pan fyddwn yn cynhyrchu deunydd yn ddwyieithog, bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd a byddant yn gyffelyb. Ar adegau, bydd y ddau fersiwn yn cael eu cynnwys yn yr un ddogfen pe bai hyn yn briodol. Y rhesymau dros beidio cynnwys y ddau fersiwn mewn un ddogfen fyddai ei fod yn rhy hir neu'n rhy swmpus neu oherwydd ystyriaethau ymarferol neu amgylcheddol. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall a bydd y ddau mor hygyrch â'i gilydd.

6.4.6 Os nad yw ar gael yn rhad ac am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad uniaith – a bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un peth.

6.4.7 Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i ddeunydd sydd ar gael yn electronig neu ar ein gwefannau, ar CD Rom neu fel arall.

6.4.8 Bydd yr holl staff sy'n gysylltiedig â chreu a dylunio cyhoeddiadau yn cael canllawiau ysgrifenedig (e.e. *canllaw Dylunio Dwyieithog* y Bwrdd) ar gyfer ymdrin â chyhoeddiadau dwyieithog.

6.4.9 Bydd pob fersiwn dwyieithog a Chymraeg ar wahân yn cael ei brawfddarllen gan gyfieithydd cymwys er mwyn sicrhau cysondeb o ran safon y Gymraeg.

6.5 Ffurflenni a Deunydd Esboniadol Cysylltiedig

6.5.1 Bydd y Cynghorau Ymchwil yn sicrhau bod pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig sydd wedi eu hanelu at y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg yn unol â'r canllawiau a nodir yn y **Deunydd wedi ei Gyhoeddi** - gweler uchod.

6.5.2 Pan fydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân (e.e. oherwydd eu natur swmpus), bydd y Cynghorau Ymchwil unwaith eto'n sicrhau bod yr holl gyhoeddiadau yn cydymffurfio â'r ymrwymadau yn yr adran **Deunydd wedi ei Gyhoeddi** uchod. Bydd y Cynghorau Ymchwil yn sicrhau bod y ddau fersiwn yr un mor hygyrch.

6.5.3 Fel y nodwyd eisoes yn 5.2, mae'r system cyflwyno grantiau electronig, Je-S, yn Saesneg yn unig. Felly, nid ydym yn gallu derbyn ceisiadau grant ymchwil yn

Gymraeg, ond rydym yn fodlon archwilio opsiynau fesul achos i gefnogi ymchwilwyr Cymraeg eu hiaith er mwyn sicrhau nad yw eu ceisiadau o dan anfantais oherwydd iaith.

6.6 Hysbysiadau i'r Wasg

6.6.1 Cyhoeddir datganiadau i'r wasg i'r cyfryngau yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg. Os oes angen cyhoeddi hysbysiad i'r wasg mor gyflym nad oes modd ei gyfieithu, er enghraifft cyhoeddi papur cyfnodolyn ar fyr rybudd, bydd y fersiwn dwyieithog yn dilyn naill ai'r un diwrnod neu o fewn 24 awr.

6.6.2 Cyhoeddir pob datganiad a hysbysiad i'r wasg yn Saesneg ar gyfer y cyfryngau hynny y mae'n hysbys eu bod yn uniaith Saesneg ac yn Gymraeg i'r cyfryngau hynny y mae'n hysbys eu bod yn uniaith Gymraeg.

6.7 Cyhoedduswydd a hysbysebu

6.7.1 Bydd hysbysebion a roddir mewn papurau newydd sy'n cael eu dosbarthu yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog; bydd hysbysebion a roddir mewn cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith yn Gymraeg yn unig.

6.7.2 Bydd y Cynghorau Ymchwil yn cynnal gweithgareddau hysbysebu a chyhoedduswydd yng Nghymru yn ddwyieithog mewn ffordd sydd yn trin y ddwy iaith yn gyfartal. Caiff y canlynol eu cynhyrchu'n ddwyieithog:

- Pob deunydd cyhoedduswydd sydd wedi ei anelu at y cyhoedd yng Nghymru
- Post uniongyrchol yn cynnwys deunydd hyrwyddo ac arolygon
- Hysbysebu yn y cyfryngau/y wasg
- Arolygon Cyhoeddus
- Stondinau arddangos a gwybodaeth
- Hysbysebu ar bosteri

6.8 Hysbysebion Recriwtio

6.8.1 Er nad oes gan y Cynghorau Ymchwil ganolfannau gweinyddol yng Nghymru ar hyn o bryd, maent yn gweithredu nifer fach o gyfleusterau ymchwil yng Nghymru. Felly, wrth baratoi a chyhoeddi hysbysebion er mwyn recriwtio staff yng Nghymru, bydd y Cynghorau Ymchwil yn glynu wrth y trefniadau canlynol:

- Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae rhuglder yn y Gymraeg yn gymhwyster *hanfodol* yn ymddangos yn Gymraeg yn unig mewn

cyhoeddiadau iaith Gymraeg a Chymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cael eu dosbarthu yng Nghymru ond yn cynnwys nodyn esboniadol byr yn Saesneg

- Bydd hysbysebion am swyddi lle mae rhuglder yn y Gymraeg yn gymhwyster *dymunol* yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cael eu dosbarthu yng Nghymru, yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg ac yn Saesneg mewn cyhoeddiadau sy'n cael eu dosbarthu ar draws y DU
- Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi lle nad oes unrhyw ofyniad ieithyddol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog mewn cyhoeddiadau sy'n cael eu dosbarthu yng Nghymru ac yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau Saesneg ledled y DU

7 GWEITHREDU'R CYNLLUN

7.1 Trefniadau gweinyddol

7.1.1 Mae gan y mesurau yn y cynllun hwn awdurdod, cymorth a chymeradwyaeth lawn yr holl Gynghorau Ymchwil

7.1.2 Bydd y rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith. Bydd Pennaeth Cyfathrebu'r RCUK yn cydlynu'r gwaith sydd ei angen i gyflenwi, monitro ac adolygu'r cynllun hwn. Gwneir hyn yn bennaf trwy'r Rhwydwaith Cynghori ar Gyfathrebu Strategol sydd yn cynnwys y Penaethiaid Cyfathrebu ar draws pob un o'r saith Cyngor Ymchwil ac ymgynghorir â chynrychiolwyr priodol eraill os bydd angen arbenigedd amgen. Bydd Pennaeth Cyfathrebu'r RCUK yn adrodd ar yr holl gynnydd i Grŵp Gweithredol yr RCUK, sydd yn cynnwys pob un o Brif Weithredwyr y saith Cyngor Ymchwil, yn ogystal â'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yn y Llywodraeth.

7.1.3 Bydd cynllun gweithredu ar y ffordd y byddwn yn gweithredu'r cynllun yn cael ei baratoi a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Daw'r cynllun gweithredu i rym ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed.

7.1.4 Bydd pob aelod o staff yn cael eu hysbysu o'r Cynllun ac fe'i hysbysebir yn gyhoeddus i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefannau hefyd.

7.1.5 Bydd yr holl staff sy'n ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru yn cael cyfarwyddiadau ac arweiniad ar y Cynllun a chynngor ynglŷn â'r hyn a ddisgwyllir ganddynt. Bydd hyn yn cynnwys canllaw i bob asesydd ac aelod o banel grantiau ymgysylltu â'r cyhoedd i sicrhau ymwybyddiaeth o natur ddwyieithog Cymru wrth asesu cynigion am waith / gweithgareddau i'w cynnal yng Nghymru.

7.1.6 Bydd yr RCUK yn cyflogi cyfieithwyr llawrydd cymwys i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn yr iaith Gymraeg.

7.2 Staffio

7.2.1 Ar hyn o bryd nid oes gan y Cynghorau Ymchwil ganolfan weinyddol yng Nghymru ac mae'r staff sydd â sgiliau dwyieithog yn gyfyngedig. Er mwyn mesur faint o'r staff sydd â sgiliau dwyieithog, bydd yr RCUK yn cynnal arolwg ieithyddol fel rhan o'r broses o weithredu'r cynllun. Bydd hyn yn ein helpu ni i fesur y sgiliau sydd eisoes yn y sefydliadau ac i gefnogi'r staff sydd eisieu datblygu eu sgiliau ymhellach.

7.3 Recriwtio

7.3.1 Rydym wedi ymrwmo i bolisi cyfle cyfartal ar gyfer ein gweithwyr ac ymgeiswyr ar gyfer swyddi. Wrth recriwtio staff, mae'r Cynghorau Ymchwil yn croesawu siaradwyr Cymraeg i ymuno â'i weithlu. Felly, wrth baratoi a chyhoeddi hysbyseb ar gyfer recriwtio staff yng Nghymru, bydd y Cynghorau Ymchwil yn glynu wrth y trefniadau canlynol:

- Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae rhuglder yn y Gymraeg yn gymhwyster *hanfodol* yn ymddangos yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau iaith Gymraeg a Chymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cael eu dosbarthu yng Nghymru ond yn cynnwys nodyn esboniadol byr yn Saesneg
- Bydd hysbysebion am swyddi lle mae rhuglder yn y Gymraeg yn gymhwyster *dymunol* yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cael eu dosbarthu yng Nghymru, yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg ac yn Saesneg mewn cyhoeddiadau sy'n cael eu dosbarthu ar draws y DU
- Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi lle nad oes unrhyw ofyniad ieithyddol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog mewn cyhoeddiadau sy'n cael eu dosbarthu yng Nghymru ac yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau Saesneg ledled y DU
- Bydd holl ddogfennaeth berthnasol sydd yn gysylltiedig â'r swyddi hynny ble mae'r Gymraeg wedi ei hadnabod fel sgil hanfodol neu ddymunol ar gael yn Gymraeg a'r Saesneg

7.4 Gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi i'r cyhoedd yng Nghymru ar ran yr RCUK gan bartïon eraill

7.4.1 Mae'r RCUK yn ymrwmo i sicrhau bod unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd partïon sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn cyd-fynd â thelerau'r Cynllun hwn. Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu rhoi allan ar contract.

7.4.2 Lle y bo'n berthnasol, bydd gofynion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn ffurfio rhan o'r dogfennau tendro a chontractau, cytundebau neu drefniadau sy'n codi wedi

hynny. Bydd angen i drydydd partïon gadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r mesurau perthnasol yn y Cynllun.

8 PARTNERIAETH

8.1 Mae'r Cynghorau Ymchwil yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus eraill.

8.2 Os mai'r Cyngor Ymchwil yw'r arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, bydd yn sicrhau, pan fydd darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus wedi ei hanelu at y cyhoedd yng Nghymru, bod y gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

8.3 Pan fydd y Cyngor Ymchwil yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei arwain, sydd yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, , bydd mewnbyn y Cyngor Ymchwil i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

9 MONITRO

9.1 Cynhelir y gwaith o weithredu a monitro'r Cynllun trwy Bennaeth Cyfathrebu'r RCUK a'r Rhwydwaith Cynghori ar Gyfathrebu Strategol (fel y nodir uchod). Bydd y Cynghorau Ymchwil yn cydymffurfio â manylion yr arweiniad uchod er mwyn sicrhau y bydd yn hwyluso darpariaeth gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru.

9.2 Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth weithredu'r cynllun hwn yn erbyn y targedau a nodir yn y cynllun gweithredu cysylltiedig. Cyfrifoldeb Pennaeth Cyfathrebu'r RCUK fydd y monitro, gan weithio gyda'r Rhwydwaith Cynghori ar Gyfathrebu Strategol (fel y nodir uchod).

9.3 Byddwn yn anfon adroddiadau monitro blynyddol i Comisiynydd y Gymraeg, yn amlinellu'r cynnydd wrth weithredu'r cynllun hwn. Bydd yr adroddiad monitro yn galluogi'r Cynghorau Ymchwil i ateb y ddau gwestiwn sylfaenol canlynol:

- A yw'r Cynghorau Ymchwil yn cydymffurfio â'r Cynllun?
- Pa mor dda y mae'n cyflawni hyn?

9.4 Bydd y gwaith o fonitro'r cynllun yn weithgaredd parhaus, wedi ei strwythuro ac os bydd gwendidau'n cael eu canfod, bydd y Cynghorau Ymchwil yn diweddarau ac / neu yn ychwanegu at y cynllun gweithredu er mwyn gwella'r sefyllfa.

9.5 Yn nhrydedd flwyddyn gweithredu'r cynllun, bydd y Cynghorau Ymchwil yn paratoi adroddiad gwerthuso fydd yn gwerthuso perfformiad o ran gweithredu'r cynllun dros y tair blynedd cyntaf. Er mwyn adolygu a diweddarau ei Gynllun Iaith Gymraeg, ac felly cael cymeradwyaeth am ail gyfnod y gweithredu, bydd yr adroddiad hwn:

- Yn rhoi trosolwg o berfformiad a chydymffurfio â'r cynllun dros y tair blynedd, o ran cyflenwi gwasanaeth a rheoli'r cynllun.

- Yn amlinellu blaenoriaethau'r Cynghorau Ymchwil ar gyfer y cyfnod sy'n dilyn gydag amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r mesurau yn y Cynllun

9.6 Gellir adolygu neu ddiwygio'r cynllun hwn ar unrhyw bryd oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i amgylchiadau cynnal y swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall. Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

10 CYHOEDDI'R CYNLLUN

10.1 Bydd RCUK yn sicrhau bod y cyhoedd a phartneriaid yng Nghymru yn ymwybodol o fodolaeth y Cynllun a'i gynnwys.

10.2 Bydd y dulliau canlynol o roi cyhoedduswydd i'r Cynllun yn cael eu mabwysiadu:

- bydd testun yn nogfennau safonol RCUK yn cyfeirio at gynllun yr RCUK
- bydd pob aelod o'r staff perthnasol yn cael arweiniad am y Cynllun
- bydd testun yn cael ei baratoi a'i roi ar wefan RCUK

10.3 Amserlen ar gyfer gweithredu'r mesurau

10.3.1 Bydd y Cynllun hwn yn dod i rym yn ffurfiol cyn gynted â bod y cynllun wedi cael ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r cynllun gweithredu ar ddiwedd y cynllun yn nodi pryd bydd gwasanaethau gwahanol ar gael.

11. CWYNIION AC AWGRYMIADAU AR GYFER GWELLIANT

11.1 Dylid cyfeirio cwynion sy'n ymwneud â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer gwelliant, at yr uwch aelod o'r staff sy'n gyfrifol am y Cynllun, yn y cyfeiriad canlynol:

Alexandra Saxon
 Head of Communications
 Research Councils UK
 Polaris House
 North Star Avenue
 Swindon
 SN2 1ET
 01793 444474
 Neu e-bost at: alexandra.saxon@rcuk.ac.uk

11.2 Byddwn yn cydweithredu â'r Bwrdd er mwyn datrys unrhyw gwynion – ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

12. CYNLLUN GWEITHREDU

Paragraff yn y Cynllun	Ymrwymiad	Graddfa Amser	Cyfrifoldeb
4.1.3, 7 a 10.2	Dyfeisio a gweithredu cynllun cyfathrebu mewnol er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol ac yn deall goblygiadau'r Cynllun Iaith Gymraeg	Gorffennaf 2012	Pennaeth Cyfathrebu'r RCUK
4.3.2	Bydd datganiad ar ymrwymiad y Cynllun yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiadau Blynyddol a chyhoeddiadau eraill	Cyfnod adrodd 2012/113	Timau Cynghorau unigol
5.1	Bydd pob gohebiaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ateb Cymraeg wedi ei lofnodi o fewn 15 diwrnod gwaith.	Parhaus	Timau Cynghorau unigol sy'n ymdrin â gohebiaeth
5.3	Bydd pob galwad yn cael ei hateb gyda chyfarchiad dwyieithog yn y cyfleusterau a weithredir gan y Cyngor Ymchwil yng Nghymru	Parhaus	Cyfleusterau'r Cyngor Ymchwil a weithredir yng Nghymru
5.4	Bydd pob gwahoddiad i gyfarfodydd a gynhelir yng Nghymru a'r cyhoeddusrwydd cysylltiedig yn cynnwys datganiad yn croesawu cyfraniadau gan siaradwyr Cymraeg	Mai / Mehefin 2012	Timau Cynghorau unigol
6.1	Sicrhau bod y wybodaeth a nodir ar gael ar wefan pob Cyngor	Parhaus 2012	Cynghorau unigol, wedi ei fonitro gan Bennaeth Cyfathrebu'r RCUK trwy CSAN

6.2	Bydd adnoddau pellach yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ac ar gael ar wefannau'r Cyngor Ymchwil	Parhaus hyd at Ragfyr 2014	Cynghorau unigol, wedi ei fonitro gan Bennaeth Cyfathrebu'r RCUK trwy CSAN
6.2	Bydd cyfeiriad e-bost yn cael ei sefydlu ar gyfer athrawon yng Nghymru i'w galluogi i wneud cais am adnoddau yn Gymraeg.		
6.4	Bydd cyhoeddiadau sydd wedi eu hanelu at y cyhoedd yng Nghymru'n cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Mae hwn yn darged parhaus gyda'r gwaith o gyfieithu'r dogfennau'n dechrau unwaith y mae'r cynllun wedi cael ei gymeradwyo.	Rhagfyr 2015	Cynghorau unigol, wedi ei fonitro gan Bennaeth Cyfathrebu'r RCUK trwy CSAN
6.6	Bydd pob hysbysiad i'r wasg yn y cyfryngau yng Nghymru yn ddwyieithog	Mai / Mehefin 2012	Swyddfeydd y wasg Cynghorau unigol
6.7	Bydd hysbysebion mewn papurau newydd yng Nghymru yn ddwyieithog	Mai / Mehefin 2012	Timau priodol mewn Cynghorau unigol
6.8	Bydd yr hysbysebion recriwtio ar gyfer swyddi yn y cyfleusterau a leolir yng Nghymru yn datgan y gofyniad ieithyddol ar gyfer y swydd	Mai / Mehefin 2012	Cyfleusterau'r Cyngor Ymchwil a weithredir yng Nghymru
7.1.4 a 7.1.5	Datblygu canllawiau a chyfarwyddiadau ar gyfer staff ar weithredu'r cynllun (gwneir hyn fel rhan o'r cyfathrebu mewnol a nodir uchod)	Mai / Mehefin 2012	Pennaeth Cyfathrebu'r RCUK
7.1.6	Datblygu rhestr o gyfieithwyr proffesiynol i'r Cynghorau i gyd eu defnyddio	Mai 2012	Pennaeth Cyfathrebu'r RCUK
7.2	Cynnal arolwg ieithyddol gyda'r staff i nodi siaradwyr Cymraeg posibl	Yr arolwg i gael ei sefydlu ar ddechrau 2012	Pennaeth Cyfathrebu'r RCUK
9.2	Creu adroddiadau monitro blynyddol	Ionawr 2013 a 2014	Pennaeth Cyfathrebu'r RCUK
9.4	Creu gwerthusiad o'r cynllun tair blynedd	Ionawr 2015	Pennaeth Cyfathrebu'r RCUK

Atodiad 1: Canllawiau a Meini Prawf yn ymwneud â pha Ddogfennau fydd yn Ddwyeithog neu yn Saesneg yn Unig

Categori A: Eitemau fydd yn ddwyeithog

- Llyfrynau/taflenni/pamffledi wedi eu hanelu at y cyhoedd yng Nghymru
- Llenyddiaeth yn rhoi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd/digwyddiadau
- Arwyddion/posteri gwybodaeth
- Cylchlythyrau a llythyrau safonol i'r cyhoedd yng Nghymru
- Dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud yn benodol â materion yr iaith Gymraeg
- Cylchlythyrau sydd wedi eu hanelu at y cyhoedd yng Nghymru (ar y we) – adran Cymru
- Holiaduron/arolygon ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru

Categori B: Eitemau i'w cyhoeddi mewn ieithoedd ar wahân

- Gwefan (gweler paragraff 6.2.2 yn y Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer cynnwys penodol)
- Hysbysiadau yn y wasg yng Nghymru
- Datganiadau a hysbysiadau i'r wasg sydd wedi eu hanelu at y cyhoedd yng Nghymru
- Crynodebau gweithredol o ddogfennau arwyddocaol sydd wedi eu hanelu at y cyhoedd yng Nghymru
- Dogfennau ymgynghori

Categori C: Eitemau lle defnyddir y meini prawf drosodd i bennu eu statws

- Papurau pwyllgor
- Adroddiadau blynyddol
- Adroddiadau
- Papurau Ymchwil
- Strategaethau

- Pecynnau hyfforddiant i'w defnyddio gan y sector
- Deunydd gyrfaoedd i'w defnyddio gan y sector
- Dogfennau eraill fel y'u cyhoeddir

Categori CH: Eitemau fydd fel arfer yn Saesneg yn unig

- Cyfrifon
- Taflenni cynhadledd a ddarperir gan gyrff neu unigolion eraill
- Dogfennau contract (ac eithrio sefyllfaoedd penodol)
- Gwybodaeth hanesyddol/archif
- Eitemau a ddsberthir ar ran sefydliadau eraill
- Papurau a gyflenwir gan 3^{ydd} partion nad ydynt o dan gontract
- Drafftiau gwaith

NODER: Mae'n annhebygol bod yr holl fathau o ddogfennau fydd yn cael eu cynhyrchu wedi eu cynnwys ar y rhestr hon. Bydd staff yn defnyddio eu barn i sicrhau categori addas ar sail gymharol er mwyn asesu a ddylai'r eitemau fod yn ddwyieithog neu beidio.

Meini prawf ar gyfer asesu addasrwydd a'r angen i gyfieithu dogfennau Categori C

Yr ystyriaethau a'r cwestiynau i fynd i'r afael â nhw	2 bwynt	1 pwynt	0 pwynt
Nifer y copïau sy'n cael eu hargraffu (os yw'n fersiwn electronig yn unig, nifer ar y rhestr ddsbarthu/banc data neu'r trawiadau a amcangyfrifir)	Dros 250	50 - 250	Llai na 50
Hyd	Llai na 2000 o eiriau. Os yw'n llai na 250 o eiriau – ychwanegwch 1 pwynt ychwanegol.	2000 – 10, 000 o eiriau	Dros 10,000 o eiriau
Graddfa dechnegol h.y. a fyddai'n ddealladwy i ddarlennydd lleyg?	Byddai	I ryw raddau	Na fyddai
Cynulleidfa darged	Aelodau o'r sector lle mae galw hysbys ac wedi ei	Rhanddeiliaid penodol y Cyngor Ymchwil neu	Arbenigwyr, sector neu randdeiliad

	sefydlu ar gyfer deunydd iaith Gymraeg	ddefnyddwyr ymchwil ar draws pob sector	arbennig lle mae'r galw lleiaf am yr iaith Gymraeg
Diben h.y. a fydd angen lledaenu'r eitem neu ei thrafod yn fewnol gan gyrff eraill; a/neu a yw wedi ei chynllunio i greu ymateb?	Ydy	O bosibl	Nac ydy
A fydd y ddogfen yn effeithio ar ddeunydd dilynol a/neu'n cael ei dyfynnu'n helaeth?	Bydd	I ryw raddau	Na fydd
Beth yw'r galw/diddordeb tebygol – yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol a/neu brofiad yn y gorffennol? Neu beth yw mwyafrif y siaradwyr Cymraeg ymysg y rheiny â diddordeb – yn seiliedig ar brofiad blaenorol?	Uchel (diddordeb yn gyffredinol iawn neu o ddiddordeb arbennig i siaradwyr Cymraeg)	Canolig (grwpiau penodol yn unig)	Isel (grwpiau arbenigol yn unig)
Hirhoedledd – am ba hyd fydd y ddogfen yn weithredol?	Dros 2 flynedd	6 mis – 2 flynedd	Dros dro (llai na 6 mis)
Statws/proffil	Uchel – eitem yn y cyfryngau neu brif ddogfen	Canolig – rhywfaint o broffil yn y sector	Isel – dim llawer o broffil yn y sector
Natur y ddogfen – a oes safbwynt iaith Gymraeg amlwg?	Oes	Yn anuniongyrchol	Nac oes

Dylai defnyddwyr y matrices hwn roi marc yn y golofn bwyntiau ar gyfer pob ystyriaeth/cwestiwn ac yna cyfrif cyfanswm y pwyntiau. Bydd cyfanswm y 3 colofn pwyntiau yn rhoi graddfa blaenoriaeth ar gyfer cyfieithu'r ddogfen. Dylid graddio'r sgôr fel a ganlyn:

Sgôr	Gradd	Camau gweithredu
Dros 13 8-12	C1 C2	Bydd y dogfennau hyn yn ddwyieithog Dylai'r dogfennau hyn fod yn ddwyieithog ond bydd p'un a ydynt neu beidio'n dibynnu ar argaeledd adnoddau cyfieithu

Llai na 7	C3	ar yr adeg honno Saesneg yn unig ar hyn o bryd, ond gellir eu hailbennu yn y dyfodol
-----------	----	--

NODER: Tybir y bydd hyn yn adlewyrchiad gwirioneddol o'r angen am ddogfennau dwyieithog ar gyfer y Cyngorau Ymchwil yng Nghymru. Bydd staff yn defnyddio barn ofalus yn achos unrhyw eithriadau er mwyn sicrhau cymryd y camau cywir. Gofynnir am gyngor swyddogion Comisiynydd y Gymraeg os bydd angen

